

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a
Throsedd Gogledd Cymru

Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg



2022

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU



OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES

1. CYFLWYNIAD

1.1 Cynllun y Gymraeg

Cymeradwywyd Cynllun y Gymraeg ar y cyd diwygiedig gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Medi 2009. Yn dilyn penodiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fe fanteisiwyd ar y cyfle i ddiwygio a diweddarau'r cynnwys er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa. Cymeradwywyd Cynllun y Gymraeg ar y cyd Heddlu Gogledd Cymru (HGC) a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (CHTh) gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 17 Mehefin, 2013.

1.2 Safonau'r Gymraeg

Fe dderbyniodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (y Comisiynydd) ei Hysbysiad Cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2016. Ers hynny mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh) wedi bod yn gweithio'n galed i gydymffurfio â'r Safonau. Daeth y mwyafrif o'r safonau i rym ar 30 Mawrth 2017, gydag eraill yn dod i rym i ddilyn ar 30 Medi 2017.

Mae'r adroddiad monitro hwn yn cynnwys y cyfnod hyd at 31.3.2022. Yn ystod y cyfnod hwn mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi parhau i fuddsoddi adnoddau er mwyn gweithio tuag at ofynion safonau'r Gymraeg.

1.3 Strategaeth y Gymraeg ar y cyd HGC a CHThGC

Lansiwyd Strategaeth y Gymraeg ar y Cyd HGC a CHThGC yn swyddogol yn ein Cynhadledd Hyrwyddo Dwyieithrwydd a gynhaliwyd ar 21 Mai 2018. Mae'r Strategaeth yn cynnwys yr amcanion strategol canlynol a'r datganiad safle sy'n arwain ein gwaith:

- Rydym yn anelu at fod yn sefydliad dwyieithog;
- Yn unol â'n cyfrifoldebau i'n cymunedau a gofynion Safonau'r Gymraeg a osodwyd ar y Comisiynydd Heddlu a Throsedd byddwn yn gweithio tuag at sicrhau bod dewis iaith yn cael ei ddarparu wrth roi gwasanaethau ac o fewn ein prosesau mewnol;
- Byddwn yn parhau i ddatblygu gwasanaeth sy'n parchu'r Gymraeg a diwylliant Cymru, ac sy'n cydnabod bod gan siaradwyr Cymraeg yr hawl i ddefnyddio'r iaith pan fyddant yn delio â'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'i swyddfa;
- Byddwn yn parhau i arloesi a chreu mentrau i hyrwyddo dwyieithrwydd yn ogystal â chefnogi'r rhai a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg i hyrwyddo, annog a chefnogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gwaith;

- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod dewis iaith gwirioneddol yn cael ei ddarparu i'r rhai sy'n dod i gysylltiad gyda'r System Gyfiawnder a'r gwasanaethau brys.

Ceir copi o'r Strategaeth isod:

[Strategaeth Iaith Gymraeg ar y Cyd](#)

2. RHEOLI A GWEINYDDU'R CYNLLUN A CHYDYMFFURFIO Â SAFONAU'R GYMRAEG

2.1 Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am sicrhau bod ei Swyddfa (SCHTh) yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu (GIGH) yw'r fforwm strategol ar gyfer aelodau Heddlu Gogledd Cymru a SCHTh i drafod a chadarnhau cynllun gweithredu Cynllun y Gymraeg a mentrau iaith perthnasol eraill. Mae GIGH yn cael ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Gwnstabl Richard Debicki. Mae'r Grŵp yn cyfarfod bob chwarter. Mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o Heddlu Gogledd Cymru ar lefel Uwch Dîm Rheoli (UDRh) o bob adran, cynrychiolydd o SCHTh a chynrychiolwyr Cymdeithasau Staff. Staff yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg sy'n gyfrifol am osod yr agenda. Mae Cynorthwydd Personol yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol yn gyfrifol am waith gweinyddol y pwyllgor ac am ddarparu'r ysgrifenyddiaeth.

Mae cynnydd pob adran yn erbyn Cynllun Gweithredu y Gymraeg yn cael ei adolygu gan Arweinydd y Gymraeg ym mhob Uwch Dîm Rheoli o fewn Heddlu Gogledd Cymru yn rheolaidd. Mae pob un o'r rheolwyr hyn yn darparu adroddiadau ar ran eu hadrannau i gyfarfodydd Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu yn chwarterol, yn ogystal a darparu diweddariadau ar lafar ar y pwyntiau allweddol. Mae'r adroddiadau adrannol hyn yn rhoi diweddariadau ar gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yr adrannau, unrhyw faterion sy'n gofyn am sylw, yn ogystal â gwybodaeth am unrhyw fentrau a ddatblygwyd i gefnogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae swyddog o SCHTh Gogledd Cymru hefyd yn mynychu is-bwyllgor o Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu, sef Gweithgor Gweithredu'r Gymraeg (GGG). Pwrpas y gweithgor hwn yw cefnogi gwaith y pwyllgor strategol drwy edrych ar y gwaith ymarferol manwl sy'n cael ei wneud i gefnogi'r tactegau yn strategaeth y Gymraeg ac i ymdrin ag unrhyw faterion penodol.

2.2. Rôl Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Mae SCHTh yn cynnwys staff sy'n gweithio ar lefel strategol, rheolaethol ac ymarferol o ran polisi iaith. Swyddog Craffu o fewn SCHTh sydd â portffolio strategol y Gymraeg a mae'r swyddog penodol yma yn eistedd ar Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu yn ogystal â chynnig cynngor, arweiniad a chefnogaeth yn ymwneud â materion Cymraeg i'r Comisiynydd a'i swyddfa.

Trafodir unrhyw fater yn ymwneud â'r Gymraeg a chydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg ar Fwrdd Rheoli SCHTh Gogledd Cymru ac mewn cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Swyddog Craffu perthnasol a Prif Weithredwr y SCHTh.

Mae'r Comisiynydd hefyd yn craffu ar gydymffurfiaeth Heddlu Gogledd Cymru gyda'i Safonau Cymraeg. Y prif gyfrwng y mae'r Comisiynydd yn gweithredu'r gwaith craffu yw drwy gynrychiolaeth ar Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu a Gweithgor Gweithredu'r Gymraeg, yn ogystal â'r Bwrdd Strategol Gweithredol y mae'r Comisiynydd yn ei gadeirio ac y mae'r Prif Gwnstabl a'i brif swyddogion yn eistedd arno.

Mae staff o Swyddfa'r Comisiynydd yn gweithio'n agos gydag Adran Gymraeg yr heddlu i sicrhau bod Safonau Iaith Gymraeg y ddau sefydliad yn cael eu cydymffurfio â hwy, a bod ymdrechion yn cael eu gwneud i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, a chyda defnyddwyr gwasanaethau.

3. SAFONAU Y GYMRAEG HEDDLU GOGLEDD CYMRU A'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD

3.1. Llywodraethu a Sicrwydd

Mae Safonau'r Gymraeg yn eitem sefydlog ar agenda Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu. Mae Gweithgor Gweithredu'r Gymraeg (GGG) hefyd yn adolygu'r gwaith sydd ar y gweill yn yr adrannau er mwyn sicrhau bod yr Heddlu a'r SCHTh yn cydymffurfio â'r gofynion a bod cynnydd yn parhau yn erbyn Strategaeth y Gymraeg ar y cyd.

3.2 Archwiliadau Mewnol i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg

Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg yn 2019 yn rhoi gwybod am gynlluniau yn ymwneud â'r gwaith sydd i'w wneud i sicrhau bod sefydliadau yn cydymffurfio â'u dyletswyddau iaith statudol a hefyd y camau y gall sefydliadau eu gwneud eu hunain i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau a chynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Roedd gwaith mewnol i sicrhau bod SCHTh a'r Heddlu yn cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg wedi'i wneud yn flaenorol gyda chymorth tîm Arolygiaeth Heddlu Ei Mawrhydi (AHM). Roedd hyn yn cynnwys samplo ar hap ac ymchwil bwrdd gwaith. Cytunwyd i barhau

â'r hunan reoli mewnol hwn yn 2019 er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Canolbwyntiwyd ar argaeledd ac ansawdd y ddarpariaeth Gymraeg yn y prif bwyntiau cyswllt cyhoeddus. Mae meysydd a adolygwyd yn Hydref 2019 yn cynnwys argaeledd y Gymraeg ar wasanaethau derbynfa gorsafoedd heddlu; dewis iaith wrth roi gwasanaeth ffôn un ai yn y Ganolfan Gyfathrebiadau neu ar rifau cyswllt a gyhoeddwyd fel yr adrannau Recriwtio ac AD. Trafodwyd cynnwys yr adroddiad a'r argymhellion yn dilyn archwiliad mewnol yn fanwl yn Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu fis Ionawr 2020. Rheolir cynnydd y gwaith gan Weithgor Gweithredu'r Gymraeg ac yn fewnol gan Swyddog Craffu perthnasol SCHTh.

3.3 Safonau Cyflwyno Gwasanaeth

Gellir gweld yr Hysbysiad Cydymffurfio sydd yn rhestru'r safonau hyn ar wefan SCHTh Gogledd Cymru. Mae trefniadau a wnaed i gyrraedd Safonau Cyflwyno Gwasanaethau yn cynnwys y canlynol:

- Mae staff SCHTh Gogledd Cymru yn derbyn cyfathrebiadau rheolaidd gan Arweinydd y Gymraeg yn ymwneud ag ymateb i ohebiaeth, trefnu cyfarfodydd ac ateb y ffôn;
- Bydd staff SCHTh yn gofyn beth yw iaith dewisol y defnyddiwr gwasanaeth pan fydd yn ymdrin â nhw am y tro cyntaf;
- Pan fydd SCHTh yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, bydd SCHTh yn ymateb yn Gymraeg. Pan fydd SCHTh yn anfon gohebiaeth heb wybod beth yw iaith ddewisol y sawl sy'n ei dderbyn, cyhoeddir yr ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- Bydd troednodyn ar waelod pob e-bost a phenawdau llythyrau yn cynnwys datganiad ein bod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- Bydd pob aelod o staff yn rhoi cyfarchiad dwyieithog wrth ateb y ffôn;
- Mae staff yn SCHTh yn sicrhau eu bod yn cynnig i bobl gael eu trosglwyddo at siaradwr Cymraeg wrth gysylltu â SCHTh os nad ydynt yn gallu delio â nhw yn Gymraeg;
- Pan fydd SCHTh yn sefydlu cysylltiad ffôn gyda defnyddiwr y gwasanaeth am y tro cyntaf, gofynnir i'r defnyddiwr os oes well ganddynt dderbyn galwadau gan SCHTh yn Gymraeg neu Saesneg yn y dyfodol. Bydd y dewis iaith yn cael ei nodi a'i barchu;
- Pan fydd SCHTh yn trefnu cyfarfod gydag aelod neu aelodau o'r cyhoedd, gofynnir i'r gwahoddedigion a ydynt yn dymuno cyfrannu i'r cyfarfod yn Gymraeg. Os yw unigolion yn nodi eu bod yn dymuno siarad Cymraeg, bydd SCHTh yn parchu a hwyluso'r dewis hwnnw;
- Bydd dogfennau sy'n cael eu cynhyrchu ar gyfer y cyhoedd gan SCHTh ar gael yn ddwyieithog;
- Bydd yr holl arwyddion a hysbysiadau cyhoeddus sy'n cael eu harddangos yn SCHTh, gan gynnwys arwyddion a hysbysiadau dros dro, yn ddwyieithog, a bydd y testun Cymraeg wedi'i roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf;

- Mae gan SCHTh wefan gorfforaethol gwbl ddwyieithog ac mae'r holl dudalennau'n cael eu creu yn Gymraeg a Saesneg, maent yn gwbl weithredol ac mae modd newid rhwng y ddwy iaith yn rhwydd;
- Mae cyfrifon cyfryngau cymdeithasol SCHTh yn gwbl ddwyieithog;
- Mae swyddfa'r SCHTh ym Mhencadlys Heddlu Gogledd Cymru ym Mae Colwyn. Felly, mae SCHTh yn dibynnu ar wasanaethau derbynfa'r Heddlu. Mae swyddi derbynnydd yr Heddlu yn swyddi sydd angen sgiliau Cymraeg llafar Lefel 3 neu'n uwch er mwyn cynnig gwasanaeth dwyieithog;
- Mae gofyn i staff SCHTh gyfarch y cyhoedd yn ddwyieithog;
- Cyhoeddir gwahoddiadau i dendro'n ddwyieithog;
- Mae modd anfon tendrau yn y Gymraeg, a ni fydd unrhyw dendrau a anfonir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na thendrau sy'n cael eu cyflwyno yn y Saesneg.

3.4. Sylwadau a Chwynion

Nid yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi derbyn unrhyw gwynion yn ystod y cyfnod adrodd yn ymwneud â'i ddefnydd o'r Gymraeg nag am ddefnydd ei swyddogion o'r Gymraeg.

Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod dan sylw, derbyniodd SCHTh un gŵyn yn ymwneud â chydymffurfiaeth Heddlu Gogledd Cymru â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau. Cafodd y gŵyn dan sylw ei chyfeirio'n syth at y Prif Gwnstabl ac fe ddeliwyd â'r mater gan Adran Safonau Proffesiynol HGC.

Mewn achosion o'r fath mae'r Comisiynydd yn hysbysu'r achwynydd o'r penderfyniad i roi gwybod am y mater i'r Prif Gwnstabl a chaiff wybod am unrhyw gynnydd a wnaed yng nghyswllt y mater.

Yn yr achos yma, bu penderfyniad yr Adran Safonau Proffesiynol yn destun adolygiad gan Swyddfa'r Comisiynydd. Dywedodd Prif Weithredwr SCHTh Gogledd Cymru ar y pryd: "Rwyf o'r farn bod yr ymateb yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r gŵyn. Rwy'n cytuno gyda'r canfyddiadau, roedd y gwasanaeth a ddarparwyd gan Heddlu Gogledd Cymru yn dderbyniol."

3.5. Cydymffurfio â safonau'n ymwneud â chynnal cyfarfodydd a darparu dewis iaith yn ystod cyfarfodydd trwy gyfieithu ar y pryd yn ystod cyfarfodydd o bell ar-lein yn ystod COVID

Cafwyd gohebiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg (CYG) yn 2020 a oedd yn nodi disgwyliad y dylai sefydliadau ddarparu cyfieithu ar y pryd yn ystod cyfarfodydd ar-lein fel y bydden nhw fel arfer yn ei wneud mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb mewn ystafell gyfarfod.

Mae gan Zoom gyfleuster sy'n caniatáu cyfieithu ar y pryd o bell o fewn cyfarfodydd arlein ond derbyniwyd canllawiau i heddluoedd yn ganolog i beidio defnyddio Zoom oherwydd pryderon ynghylch diogelwch. Yn sgil y canllawiau hyn mae heddluoedd a swyddfeydd Comisiynwyr Heddlu a Throsedd Cymru a Lloegr wedi bod yn defnyddio Microsoft Teams a Skype/Lync. Ond yn anffodus nid ydy Microsoft Teams yn galluogi cyfieithu ar y pryd ar-lein.

Er gwaethaf sicrwydd gan Microsoft Teams bod y cyfleuster cyfieithu am fod ar gael drwy gydol y cyfnod adrodd, yn anffodus nid yw hyn wedi digwydd a'r gobaith yw y bydd y feddalwedd berthnasol ar gael yn 2022/23.

Ceisiom weithio o amgylch y broblem hon, gyda'n cydweithwyr yn Heddlu Gogledd Cymru, drwy gynnig cyfieithu dros linell ffôn tra roedd cyfarfodydd/cynadleddau ymlaen. Mae gwaith sylweddol wedi ei wneud gan Adran Gymraeg Heddlu Gogledd Cymru er mwyn treialu'r dull hwn o weithio, ac er mwyn datblygu sgiliau a hyder y cyfieithwyr i ddarparu'r gwasanaeth hwn drwy sesiynau ymarfer rheolaidd.

Er nad yw'r dull presennol ar Teams yn ddelfrydol, mae'r ffurf yma o weithio bellach yn rhan o arlwy cymorth y Gymraeg HGC, er mwyn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ystod cyfarfodydd ar-lein. Bydd y gwaith hwn ar gael hyd nes y gall Microsoft Teams gynnig cyfleuster cyfieithu mwy addas ar gyfer cyfarfodydd.

3.6 Safonau Llundio Polisi

Gellir gweld yr Hysbysiad Cydymffurfio sydd yn rhestru'r safonau hyn ar wefan SCHTh. Mae trefniadau a wnaed i gyrraedd Safonau Cyflwyno Gwasanaethau yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r holl bolisiâu, prosiectau, gweithdrefnau a mentrau newydd y mae SCHTh yn eu rhoi ar waith yn amodol ar Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb. Fel rhan o'r asesiad hwn, mae'n rhaid i staff sydd yn llunio polisiâu newydd ystyried yr effeithiau positif a/neu negyddol y gallai'r polisi hwnnw ei gael ar y Gymraeg ac ar siaradwyr Cymraeg a dysgwyr;
- Os yw ymchwil yn cael ei gomisiynu i gynorthwyo â llunio polisi, bydd staff SCHTh yn sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellir gwneud y penderfyniad polisi fel nad yw'n cael effaith negyddol ar y Gymraeg;
- Mae SCHTh yn sicrhau bod unrhyw ymgynghoriad ar bolisiâu yn cynnig cyfle i bobl wneud sylw ar effaith unrhyw bolisiâu newydd ar y defnydd o'r Gymraeg;
- Mae Polisiâu Comisiynu SCHTh yn nodi y byddwn yn ystyried yr effaith wrth wneud penderfyniadau dyfarnu grant, y bydd dyfarnu'r grant yn cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod adrodd mae pecyn cymorth newydd i staff ar gyfer Asesu Effaith ar y Iaith Gymraeg wedi ei gyflwyno.

Nid yw SCHTh wedi derbyn unrhyw gwynion yn ymwneud â chydymffurfio â Safonau Llundain Polisi yn ystod y cyfnod adrodd.

3.7 Safonau Gweithrediadol

Gellir gweld yr Hysbysiad Cydymffurfio sydd yn rhestru'r safonau hyn ar wefan SCHTh. Mae trefniadau wedi eu gosod yn SCHTh er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gweithredol yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r Heddlu a SCHTh wedi paratoi Strategaeth iaith 5 mlynedd sy'n cynnwys hyrwyddo, annog a chefnogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gwaith a gweithleoedd dwyieithog
- Mae Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio tuag at ddatblygu prosesau, gweithdrefnau a dogfennaeth AD i wneud y siŵr bod modd i staff yn SCHTh dderbyn dogfennau AD a phrosesau yn Gymraeg;
- Mae gan yr Heddlu Bolisi Sgiliau Cymraeg. Y mae gofyn ar i holl staff SCHTh hunan asesu eu sgiliau Cymraeg mewn perthynas ag ysgrifennu a siarad ar lefelau 0-5 ar gyfer pob un o'r categorïau hyn. Mae staff hefyd yn cael eu hannog i gwblhau asesiad ffurfiol. Y mae gofyn ar i bob aelod newydd o'r staff gael asesu eu sgiliau Cymraeg yn ffurfiol;
- Mae cyrsiau mewnol Cymraeg yn y gweithle yn cynnwys hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith;
- Mae SCHTh wedi cyflwyno proses AD lle gofynnir i bob aelod o staff os ydynt yn dymuno derbyn eu cytundeb cyflogaeth yn Gymraeg;
- Gofynnir i bob aelod o staff yn SCHTh a ydynt yn dymuno derbyn unrhyw ohebiaeth bapur sy'n berthnasol i'w cyflogaeth, a/neu eu hanghenion hyfforddiant, ac sydd wedi'i gyfeirio atynt yn bersonol, yn Gymraeg;
- Gofynnir i staff yn SCHTh hefyd os ydynt yn dymuno derbyn dogfennau a fydd yn amlinellu amcanion eu perfformiad yn Gymraeg a byddwn yn darparu dogfennau yn Gymraeg os mae dyna yw eu dymuniad;
- Mae meddalwedd cyfrifiadur Cymraeg (ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg) wedi ei ddarparu i bob aelod o staff sy'n siarad Cymraeg neu sy'n dysgu Cymraeg os mai hynny yw eu dymuniad;
- Mae SCHTh yn caniatáu i bob aelod o staff wneud cwynion yn Gymraeg ac i ymateb yn Gymraeg i unrhyw gŵyn a wneir amdano neu amdani;
- Mae SCHTh yn caniatáu i bob aelod o staff i ymateb yn Gymraeg i gyhuddiadau a wneir yn eu herbyn mewn unrhyw broses ddisgyblu;

- Bydd staff yn cael cyfle i fynychu cyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg mewnol yn ystod oriau gwaith. Mae'r Heddlu'n darparu cyrsiau Cymraeg sydd wedi cael eu cynllunio'n arbennig ar gyfer yr Heddlu. Darperir cyrsiau o Lefel 2 hyd at Lefel 5 (Gloywi iaith). Mae aelodau staff sydd yn cwblhau cwrs yn llwyddiannus yn cael eu hannog i symud ymlaen i'r lefel nesaf.
- Mae Adran Gymraeg Heddlu Gogledd Cymru wedi trefnu cyrsiau preswyl Cymraeg i staff Swyddfa'r Comisiynydd yng Nghanolfan Iaith Nant Gwrtheyrn yn y gorffennol. Roedd y cyrsiau wedi eu anelu at staff a oedd wedi cyrraedd sgiliau llafar Cymraeg lefel 3 neu 4 a oedd angen cyfle i atgyfnerthu ac adnewyddu eu sgiliau. Er nad oedd modd cynnal y cyrsiau hyn yn ystod argyfwng COVID, y gobaith yw y byddan nhw'n aildechrau yn 2022/23.
- Gofynnir i reolwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg ddatblygu eu sgiliau Cymraeg at Lefel 3 i wella eu gallu llafar ac ymwybyddiaeth o ddefnyddio Cymraeg fel rhan o'u rôl gan hwyluso Cymraeg yn y gweithle.
- Mae pob swydd yn SCHTh yn gofyn am ryw lefel o Gymraeg yn unol â Pholisi Sgiliau Cymraeg yr Heddlu ac mae'r rhan fwyaf o swyddi yn cael eu hysbysebu fel swyddi 'Cymraeg yn hanfodol'.
- Mae Heddlu Gogledd Cymru yn darparu sesiynau hyfforddiant gorfodol am ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i bob aelod o staff newydd yn Swyddfa'r Comisiynydd. Mae gwybodaeth am bwysigrwydd yr iaith hefyd ar gael ar safle Mewnrwyd yr Adran Gymraeg.
- Pan gaiff swydd newydd ei chreu, neu phan gaiff swydd newydd ei hadolygu, mae rheolwr llinell neu swyddog AD yn asesu'r sgiliau Cymraeg sydd angen ar gyfer y swydd gan ddefnyddio matrices Cymraeg yr Heddlu. Mae'r asesiad yn seiliedig ar y disgrifiad swydd a'r ffaith y bydd y swydd yn cael ei lleoli yn SCHTh. Mae'r Heddlu yn defnyddio cyfres o lefelau sgiliau yn seiliedig ar fframwaith ALTE a chyfres o ddatganiadau 'gallu gwneud' i benderfynu pa lefel o Gymraeg sydd angen ar gyfer y rôl.
- Mae ffurflenni cais SCHTh ar gyfer swyddi yn darparu cyfle i ymgeiswyr ddangos eu dewis iaith yn y cyfweiliad;
- Anogir staff SCHTh i wisgo'r bathodynau 'Dw i'n dysgu' neu 'Dw i'n siarad Cymraeg' yn y gweithle;
- Mae gwaith yn parhau i ddigwydd yn ystod y cyfnod adrodd i sicrhau cydymffurfio â gofynion Safon 125. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cyrsiau hyfforddi penodol ar gael yn Gymraeg a Saesneg i staff. Mae hyn yn cynnwys cyfieithu deunyddiau hyfforddi i'r Gymraeg ac adolygu gallu dwyieithog yr hyfforddwyr sy'n gyfrifol am y cyrsiau.

Yn ystod y cyfnod adrodd cafodd dwy swydd o fewn SCHTh Gogledd Cymru eu hysbysebu, roedd un swydd yn un Cymraeg rhugl yn hanfodol, a'r un arall yn un Cymraeg rhugl yn ddymunol. Penodwyd unigolyn sydd yn rhugl yn y Gymraeg i'r swydd Cymraeg rhugl yn hanfodol, a penodwyd unigolyn sydd â sgiliau iaith Lefel 3 i swydd y Dirprwy Gomisiynydd.

Mae'r Dirprwy Gomisiynydd wedi ymrwymo i wella ei sgiliau iaith Gymraeg ac mae'n mynychu gwersi Cymraeg rheolaidd.

Nid yw SCHTh wedi derbyn unrhyw gwynion yn ymwneud â chydymffurfio â'r Safonau Gweithredol.

3.8 Safonau Cadw Cofnodion

Gellir gweld yr Hysbysiad Cydymffurfio sydd yn rhestru'r safonau hyn ar wefan SCHTh. Mae trefniadau wedi eu gwneud er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Cadw Cofnodion ac maen nhw'n cynnwys y canlynol:

- Mae SCHTh yn cadw cofnod o'r nifer o gwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â chydymffurfio â'r Safonau a bydd yn adrodd yn ôl i Gomisiynydd y Gymraeg yn flynyddol. Byddwn yn cadw copi o gwynion o'r fath, ac unrhyw gwynion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg. Mae unrhyw gwynion a dderbyniwyd gan SCHTh yn cael eu cofnodi yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu 2002;
- Mae SCHTh yn cadw cofnod o'r nifer o weithwyr sydd â sgiliau Cymraeg;
- Bydd SCHTh yn cadw cofnod o'r camau sy'n cael eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safonau llunio polisi y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â nhw;
- Mae SCHTh yn cadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol o'r nifer o aelodau o staff sydd wedi mynychu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg ac os darparwyd fersiwn Gymraeg o'r cwrs, canran o gyfanswm y nifer o staff a fynychodd y cwrs a aeth i'r fersiwn hwnnw;
- Mae adran AD Heddlu Gogledd Cymru yn cadw copi o bob asesiad sy'n digwydd yng nghyswllt sgiliau Cymraeg ein staff.

Yn ystod y cyfnod dan sylw roedd 79% o staff SCHTh Gogledd Cymru yn rhugl yn y Gymraeg (Lefel 4 a 5).

Nid yw SCHTh wedi derbyn unrhyw gwynion yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'r Safonau Cadw Cofnodion.

4. MONITRO A CHYNYDDU GALLU DWYIEITHRWYDD SCHTH

Yn dilyn cyflwyno protocolau Cymraeg ar gyfer penodi a dyrchafu, yn ogystal â mentrau i wella gallu Cymraeg yn SCHTh a'r Heddlu yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu yn parhau i fonitro cynnydd a datblygiad.

4.1. Cefndir i Brotocolau Cymraeg Heddlu Gogledd Cymru

Sefydlwyd protocol Cymraeg llafar Lefel 1 gwreiddiol Heddlu Gogledd Cymru yn 2005. Ers mis Ionawr 2008 rhaid i staff newydd ddangos hyfedredd Lefel 2 Cymraeg (Fframwaith Hyfedredd Cymraeg Heddlu Gogledd Cymru) cyn ymuno. Mae gofyn iddynt wedyn gyrraedd o leiaf Lefel 3 cyn diwedd eu cyfnod prawf. I gynorthwyo staff i gyrraedd y lefel hwn cynigir cwrs Cymraeg lefel 3 gorfodol am 8 diwrnod fel rhan o'u hyfforddiant cychwynol (mae hyn yn cynnwys staff yn SCHTh). Mae staff newydd sy'n gallu siarad Cymraeg yn cael mynd ar gwrs 'gloywi iaith' i fagu hyder i ddefnyddio eu Cymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Adolygwyd y protocol hwn yn 2018 gan Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu ac mae'r gofynion yn parhau. Adolygodd yr Uwch Dîm Rheoli y protocol hwn unwaith eto yn eu cyfarfod fis Tachwedd 2019. Cytunwyd i gadw'r gofyniad i lefel 2 wrth benodi. Mae hwn yn ofyniad y mae'r Comisiynydd yn awyddus i'w gadw. Yn ogystal, er mwyn cefnogi'r protocol, gwnaed gwaith i egluro'r gofynion i ymgeiswyr posib yn well. Diweddarwyd y deunydd Cymraeg ar gael a'i hadolygu er mwyn helpu ymgeiswyr nad ydynt yn siarad Cymraeg i gyrraedd y lefel gofynnol. Cynhelir sesiynau ymarfer iaith Gymraeg anffurfiol i ymgeiswyr sydd am gael cefnogaeth ychwanegol.

Hefyd, ers mis Ionawr 2008 mae unrhyw aelod o staff sy'n cael dyrchafiad yn gorfod gallu dangos sgiliau llafar Lefel 2 Cymraeg o leiaf cyn cael ei benodi. Mae'r Heddlu wedi paratoi adnoddau ar ffurf CD 'Cyflwyniad i Gymraeg' lefel 1, 2, a 3 i helpu ymgeiswyr i baratoi ar gyfer y disgwyliadau ieithyddol hyn. Darperir cymorth hefyd gan staff Gwasanaethau Iaith Gymraeg os yw ymgeiswyr yn cael trafferth.

Yn ystod 2021, oherwydd COVID, cwblhawyd gwaith i safoni asesiadau ar lafar Lefel 1 a Lefel 2 er mwyn cynnal y broses asesu gydag ymgeiswyr ar-lein neu dros y ffôn. Mae'r dull hwn wedi cael ei gario ymlaen i'r cyfnod adrodd.

4.2. Polisi Sgiliau Cymraeg Heddlu Gogledd Cymru

Adolygwyd y polisi hwn, sy'n berthnasol i SCHTh yn ystod 2016. Nid oes newidiadau wedi digwydd i'r gofynion ond mae'r cynnwys wedi ei adolygu i'w gwneud hi'n haws i'w defnyddio. Nod y Polisi Sgiliau Iaith Gymraeg yw cynnig fframwaith ymarferol y gall rheolwyr a staff weithredu oddi ei fewn er mwyn rhoi'r amcanion a'r uchelgais ar waith fel y gosodwyd yn y Strategaeth Iaith Gymraeg ar y cyd.

Mae'r Polisi yn atgoffa staff bod SCHTh a HGC yn cydnabod bod y gallu i siarad Cymraeg yn sgil ar y cyd â sgiliau plismona eraill. Mae'n nodi mai cyfrifoldeb personol pob aelod o staff a gwirfoddolwr yw cyfrannu at ofynion y Safonau.

Mae'r Polisi hefyd yn cydnabod rôl arweinyddiaeth yn annog, cefnogi a hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg yn y gweithle ac wrth gyflwyno gwasanaeth Cymraeg. Yn dilyn datblygiadau mentrau ieithyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf i wella gallu Cymraeg rheolwyr a staff uwch mae'r gofynion canlynol nawr wedi eu sefydlu:

i) Gofynnir i bob aelod graddedig o staff (Staff yr Heddlu o radd PO (C) ac uwch) gyrraedd lefel 3 erbyn diwedd eu cyfnod prawf.

ii) Yn unol â gofynion Protocolau Dyrchafiadau Cymraeg yr Heddlu dylai staff sy'n gwneud cais i gael eu hystyried am ddirchafiad (mae staff yr heddlu sy'n chwilio am rôl ar raddfa uwch yn cyfateb i ddirchafiad) ddangos eu gallu ar lefel 2 fel rhan o'u cais. Y gofyniad ychwanegol ers 1 Medi 2013 yw bod pob aelod o staff sydd newydd gael dyrchafiad ond yn cael eu penodi ar yr amod eu bod yn cytuno i gyrraedd lefel 3 o fewn 12 mis o gael dyrchafiad.

Yn ystod y cyfnod adrodd mae'r Grŵp Iaith Gymraeg wedi monitro gweithredu'r Polisi hwn yn eu cyfarfodydd drwy ofyn i Adran Adnoddau Dynol yr Heddlu am adroddiadau cynnydd yn erbyn amcanion y Polisi.

Mae'r Heddlu yn cynnig hyfforddiant Cymraeg i gynorthwyo staff i ddiwallu'r amodau hyn. Mae SCHTh hefyd yn gofyn i bob aelod o staff i ymgysylltu â chyfleoedd hyfforddi a datblygu fel y cynigir iddynt ac i ddangos ymroddiad i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Ers nifer o flynyddoedd mae'r cyrsiau Cymraeg hyn wedi eu darparu gan Goleg Cambria (a chyn hynny gan Goleg Llysfasi). Mae'r cyrsiau o safon uchel ac mae'r adborth gan y staff sydd wedi eu mynychu yn gadarnhaol iawn.

Yn ystod y cyfnod adrodd, oherwydd COVID, mae'r rhaglen hyfforddi Cymraeg wedi cael ei symud i ddarpariaeth ar-lein.

5. GALLU CYMRAEG SCHTH 2021-22

Mae 79% o'r staff sy'n gweithio yn SCHTh yn ystod y cyfnod adrodd yn siaradwyr Cymraeg rhugl (Lefel 4 a 5). Mae canran siaradwyr lefel 4 a 5 Swyddfa'r Comisiynydd yn sylweddol fwy na'r ganran o siaradwyr Cymraeg yn y gymuned yng Ngogledd Cymru (sy'n 31% yn ôl ffigyrau Cyfrifiad 2011).

6. RECRIWTIO

Mae'r Comisiynydd yn cydnabod mai'r ffordd fwyaf effeithiol i wella gallu dwyieithog y sefydliad yw drwy recriwtio staff newydd sydd â gafael da ar y Gymraeg o'r cychwyn ac sydd â sgiliau hanfodol eraill sy'n gymesur â'r swydd. Mae Bwrdd Rheoli SCHTh a Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu yn derbyn diweddariadau cyson ar sgiliau dwyieithog staff newydd yn eu cyfarfod bob chwarter.

Un o amcanion strategaeth Cymraeg ar y cyd y Comisiynydd a'r Heddlu yw i'r SCHTh a Heddlu Gogledd Cymru ddod yn sefydliadau hollol ddwyieithog. Er mwyn cefnogi hyn mae tactegau yn bodoli i wella gallu dwyieithog SCHTh a'r Heddlu drwy recriwtio staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg. Mae 3 elfen allweddol. Yn gyntaf, penodi siaradwyr Cymraeg cymwys i rolau mewn

rhyngwynebau cyhoeddus rheoledig sydd wedi'u dynodi'n swyddi 'Cymraeg yn Hanfodol'. Yn ail, mae ymdrechion parhaus i ddenu mwy o siaradwyr Cymraeg (lefelau llafar Cymraeg 4 a 5) i wneud cais am bob rôl. Yn drydydd, mae'r gofyniad bod ymgeiswyr am bob rôl yn SCHTh (ar wahân i swyddi 'Cymraeg yn Hanfodol') yn gallu dangos cwrteisi ieithyddol yn Gymraeg (Cymraeg llafar lefel 2 HGC) ar ôl eu penodi fel lleiafswm.

Yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymraeg i adolygu cyfathrebiadau gofynion i ddarpar ymgeiswyr nad oedd yn siarad Cymraeg a'r deunydd cymorth a ddarparwyd i'w cynorthwyo i gyrraedd y lefel sydd ei angen.

7. HYFFORDDIANT CYMRAEG

Yn anffodus, mae COVID wedi cael effaith aflonyddol ar ddarparu cyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg a sesiynau cymorth iaith yn y gweithle a chysiau allanol fel y rhai yn Nant Gwrtheyrn yn ystod 2020-21.

Cafodd sgil-ffaith hefyd ar gyrsiau oedd wedi eu trefnu ar gyfer 2021-22. Diolch i waith didor Manon Williams, tiwtor arweiniol y Gweithle yng Ngholeg Cambria, ail ddechreuodd cyrsiau Cymraeg dros y cyfnod adrodd ac fe ddylen nhw ddychwelyd i'r arfer ar gyfer 2022-23. Ond mae'n rhaid cydnabod bod llai o staff wedi gallu mynd ar gyrsiau iaith yn ystod y cyfnod yma oherwydd effaith y cyfyngiadau COVID.

Mae staff Adran Gymraeg Heddlu Gogledd Cymru wedi parhau i ddarparu cymorth un i un yn y Gymraeg ar-lein ar gyfer Prif Swyddogion ac uwch-swyddogion, gan gynnwys y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd.

7.1. Adnabod gofynion y Gymraeg ar gyfer proffiliau rôl

Mae yna ymrwymiad yn ein Strategaeth Iaith a'n Polisi Sgiliau Cymraeg y byddwn yn nodi gofynion y Gymraeg ar gyfer pob swydd. Mewn gwirionedd mae pob swydd o fewn Swyddfa'r Comisiynydd yn rhai 'Cymraeg hanfodol' gan fod pob un ohonynt yn gofyn am rywfaint o gymhwysedd yn y Gymraeg, ar sail y lefelau yn ein Fframwaith Cymwyseddau Cymraeg. Mae'r lefel o gymhwysedd sydd ei angen yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Datblygwyd proses safonol ar gyfer proffilio pob rôl gan adran Adnoddau Dynol Heddlu Gogledd Cymru ac fe'i cymhwysir ar gyfer pob grŵp o rolau a/neu rôl unigol. Mae'r broses yn seiliedig ar natur y rolau yn ogystal â chysylltiad y swydd â grwpiau/sefydliadau sy'n gweithio drwy'r iaith Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Unwaith y bydd lefel o sgiliau Cymraeg wedi'i chadarnhau ar gyfer swydd sy'n cael ei hysbysebu, mae disgwyl y bydd y broses benodi, cyn belled ag y bo modd, yn sicrhau y bydd rhywun sydd â'r lefel angenrheidiol o gymhwysedd yn cael ei benodi.

8. MENTRAU I HYRWYDDO GWEITHLEOEDD DWYIEITHOG AC ANNOG MWY O DDEFNYDD O'R GYMRAEG YN Y GWEITHLE.

Yn ystod y cyfnod adrodd rydym wedi ystyried amrywiaeth o ffyrdd i sicrhau bod staff yn cynnal ac yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg ac yn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

- Mae gwaith wedi ei wneud i ail-sefydlu a chynyddu'r nifer o Bencampwyr Iaith Gymraeg;
- Mae Cynllun Gweithredu Strategaeth y Gymraeg ar y cyd yn cynnwys pwyntiau gweithredu i hyrwyddo gweithleoedd dwyieithog ac i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gwaith. Mae'r Cynllun hwn yn parhau i gael ei weithredu.

Yn anffodus, nid ydy hi wedi bod yn bosibl i ail gyflwyno'r sesiynau ymarfer Cymraeg anffurfiol 'Paned a Sgwrs' yn ystod y cyfnod adrodd.

Fodd bynnag, mae cefnogaeth i ymarfer a datblygu sgiliau Cymraeg staff wedi cael ei gynnig a'i ddarparu fel bo'r angen ar-lein gan ddefnyddio meddalwedd cyfarfodydd ar-lein Microsoft Lync neu Teams.

Gorau Glas:

Lansiwyd cylchgrawn ar-lein chwarterol newydd wedi'i anelu at siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn ystod haf 2021. Nod y cyhoeddiad yw rhannu gwybodaeth am fentrau iaith Gymraeg o fewn yr Heddlu a rhannu newyddion o'r byd Cymraeg ehangach.

Prif nod Gorau Glas yw cyflwyno erthyglau byr, addysgiadol a hawdd i'w darllen yn Gymraeg - yn aml gyda bar ochr yn rhestru detholiad o eiriau Cymraeg er mwyn i ddysgwyr allu ehangu eu geirfa. Mae'r cylchgrawn wedi'w groesawu'n frwd gan staff Swyddfa y Comisiynydd.

8.1. Pencampwyr Iaith Gymraeg Heddlu Gogledd Cymru – hyrwyddo, annog a chefnogi'r defnydd o Gymraeg yn y gweithle

Fel rhan o'r gwaith yn hyrwyddo, annog a chefnogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle mae SCHTh Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru wedi sefydlu rhwydwaith o Bencampwyr Iaith Gymraeg ymhob adran ac ar draws ardal yr Heddlu. Mae staff yn gwirfoddoli i gymryd y rôl hon yn ychwanegol i'w dyletswyddau gwaith. Nid oes rhaid iddynt fod yn rhugl yn y Gymraeg gan mai brwdfrydedd a'r dymuniad i gefnogi eraill sy'n bwysig. Mae'r Pencampwyr Iaith Gymraeg yn gweithredu ar lefel leol i hyrwyddo dwyieithrwydd. Menter newydd yw cysylltu'r Pencampwyr gyda staff sy'n datblygu eu sgiliau Cymraeg cyn, yn ystod ag ar ôl mynychu cwrs hyfforddiant iaith Gymraeg yn y gwaith.